



Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

22 Mai 2019

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Mai.

Yn ymateb Jim Harra i chi ar 14 Mai, amlinellwyd y mater a gododd yn ddiweddar o ran defnyddio cod treth 'C' Cymru. Digwyddodd hyn am nad oedd rhai cyflogwyr wedi defnyddio'r codau a ddarparwyd gan CThEM ar gyfer eu gweithwyr yn y ffordd gywir.

Mae CThEM wedi fy sicrhau bod camau eisoes yn cael eu cymryd i helpu cyflogwyr i gywiro'r camgymeriad hwn. Bydd sgan yn cael ei gynnal ym mis Mehefin i asesu graddfa'r broblem, ac eto ym mis Medi i weld i ba raddau mae'r materion wedi eu cywiro.

Byddai swyddogion CThEM a Thrysorlys Cymru yn hapus i roi briff technegol i'r Pwyllgor, pe bai hynny'n ddefnyddiol i chi, er mwyn arwain yr Aelodau drwy bob cam o'r broses dreth incwm, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau CThEM, cyflogwyr a gweithwyr. Byddai modd iddynt hefyd roi rhagor o fanylion i chi am waith a wnaed hyd yma i adnabod trethdalwyr a chynlluniau busnes fel arfer i gynnal y gronfa ddata o drethdalwyr sy'n byw yng Nghymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, Jim Harra, Dirprwy Brif Weithredwr ac Ail Ysgrifennydd Parhaol CThEM, Debbie Alder, Cyfarwyddwr Cyffredinol Adnoddau Dynol, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.